Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Tudno

**Rhodfa'r Drindod**
**Llandudno**
**Conwy**
**LL30 2SJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Tudno

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Tudno |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 189 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 177 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 19.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 22.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 8.1% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2014 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/06/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Tudno yn gymuned ofalgar lle mae disgyblion yn gweithio ac yn chwarae gyda'i gilydd yn hyderus. Mae cymorth ar gyfer lles cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn hynod effeithiol ac mae hyn yn galluogi disgyblion i ffynnu yn amgylchedd cynhwysol yr ysgol. Mae disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn saff ac yn hapus yno. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eithriadol o dda. Maent yn ffurfio perthnasoedd cryf ag oedolion a gyda'i gilydd ac yn dangos parch a chwrteisi ar gyfer pob aelod o gymuned yr ysgol. Mae hyn yn arwain at ymgysylltu cryf ym mywyd yr ysgol. Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at yr ysgol ac yn mwynhau eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol ac yn cyflawni'n dda.

Un o gryfderau penodol yr ysgol yw'r ffordd y mae'n rhoi amlygrwydd i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion a'u gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant Cymru. Mae athrawon a staff cymorth yn darparu modelau rôl cryf. Mae hyn, ynghyd â'r ethos Cymreig cryf, yn hyrwyddo'r defnydd naturiol o'r Gymraeg yn dda iawn trwy gydol y dydd. Mae disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn eu gwaith llafar yn effeithiol iawn ac yn teimlo'n falch o'u gallu i ddefnyddio'r ddwy iaith yn hyderus.

Mae athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu dilys sy'n ymestyn gwybodaeth disgyblion yn dda ac yn darparu cyfleoedd defnyddiol iddynt ddatblygu ystod o fedrau yn ystod gwersi bob dydd. Mae athrawon yn gwrando'n ofalus ar syniadau disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm ac mae hyn yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb ac ymgysylltiad yn eu gwaith. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r cynllunio ar gyfer datblygiad systematig medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o addysgu yn bwrpasol, ac mae athrawon yn defnyddio holi'n dda i symud dysgu'r disgyblion ymlaen a chefnogi dealltwriaeth yn unol ag anghenion disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw tasgau bob amser yn ddigon heriol ar gyfer ychydig o ddisgyblion ac nid yw ansawdd adborth athrawon yn effeithio'n ddigon da ar y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn darparu arweinyddiaeth dosturiol a meddylgar. Maent yn rhannu gweledigaeth glir ac yn hyrwyddo cydweithio ymhlith staff, yn meithrin arbenigedd proffesiynol ac yn cryfhau partneriaethau â rhieni ac ysgolion lleol eraill yn llwyddiannus. Maent yn gosod nodau clir ar gyfer gwella; fodd bynnag, nid yw gweithgarwch monitro bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar y gwahaniaeth a wna gwaith gwella i ddysgu'r disgyblion.

## Argymhellion

A1 Cryfhau cyfraniad yr holl arweinwyr at y prosesau hunanwerthuso a chanolbwyntio'n fwy penodol ar effaith yr addysgu ar ddysgu

A2 Sicrhau bod yr addysgu yn darparu her briodol ar gyfer yr holl ddisgyblion a bod adborth yn eu helpu i wella'u gwaith ymhellach

A3 Datblygu'r cwricwlwm ymhellach i sicrhau bod yr ysgol yn darparu ymagwedd ysgol gyfan systematig at ddatblygu medrau disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â datblygu ethos a diwylliant Cymreig lle gall y Gymraeg ffynnu mewn ysgol cyfrwng Saesneg, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd), yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys y rhai yn y Dosbarth Enfys, sef y dosbarth adnoddau arbenigol, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol ac yn cyflawni'n dda yn erbyn eu targedau personol.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau llythrennedd cynnar priodol. Maent yn siarad â lefelau cynyddol o hyder ac yn cyfleu ystyr yn effeithiol mewn brawddegau clir, er enghraifft pan fyddant yn esbonio sut maent yn teimlo a pham. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn magu hyder ac yn mwynhau siarad a pherfformio o flaen eu cyfoedion, er enghraifft pan fyddant yn perfformio eu sioe bypedau eu hunain am Y Tri Mochyn Bach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn siarad â hyder ac eglurder, ac erbyn iddynt adael yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion hyn yn perfformio ac yn actio i safon uchel o flaen cynulleidfa.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol yn datblygu eu medrau Cymraeg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando ac yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau yn Gymraeg ac yn rhoi ymatebion estynedig priodol i gwestiynau a thrafodaethau. Maent yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn eu gwaith llafar yn effeithiol iawn ac yn teimlo'n falch o'u gallu i ddefnyddio'r ddwy iaith yn hyderus. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau Cymraeg yn effeithiol iawn mewn ystod eang o sefyllfaoedd

ac agweddau ar y cwricwlwm. Nodwedd nodedig o'u gwaith yw eu gallu i gyfuno'u medrau iaith yn naturiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r ethos Cymreig cryf ar draws yr ysgol yn hyrwyddo'r defnydd naturiol hwn o'r Gymraeg yn dda trwy gydol y dydd. Mae disgyblion hŷn yn gosod esiampl dda i ddisgyblion iau trwy arwain gwasanaethau ysgol gyfan a'u hannog i chwarae gemau maes chwarae yn Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu dealltwriaeth effeithiol o seiniau llythrennau a sut maent yn cyfuno i ffurfio geiriau. Maent yn mwynhau gafael mewn llyfrau yn ystod eu chwarae rhydd ac yn defnyddio lluniau a geiriau allweddol yn dda i ail-ddweud stori. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn atgyfnerthu eu gwybodaeth am eiriau allweddol ac yn dechrau datblygu rhuglder â'u darllen. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen â rhwyddineb a mynegiant. Fodd bynnag, mae medrau darllen lefel uwch llawer o ddisgyblion, fel rhesymu a dod i gasgliad, yn llai datblygedig.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn dangos dealltwriaeth o ystyr llythrennau mewn geiriau ac yn dechrau cynhyrchu ysgrifennu mewn geiriau ac ymadroddion syml. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn datblygu eu dealltwriaeth o strwythur brawddeg a sillafu yn dda ac yn dechrau ysgrifennu'n greadigol ac yn estynedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu ar draws amrywiaeth o genres yn briodol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu dealltwriaeth o nodweddion cofiant pan fyddant yn creu eu cofiant eu hunain am ffrind yn yr ysgol.

O oedran cynnar, mae disgyblion yn meithrin ystod ddefnyddiol o fedrau mathemategol ac yn mwynhau heriau mathemateg, gan ymgymryd â gemau cyfrif a gweithgareddau paru yn frwdfrydig. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau rhifedd yn briodol mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft defnyddio clorian yn gywir i fesur y cynhwysion wrth wneud teisennau cri. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n effeithiol gyda phedair rheol rhif ac yn defnyddio'u medrau rhifedd datblygol yn dda i ddatrys problemau. Maent yn disgrifio eu meddwl a rhesymu yn glir wrth esbonio sut daethon nhw i'w casgliadau. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod addas o ddulliau yn fedrus i gyfrifo yn eu pennau ac ar bapur wrth ddatrys problemau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'u medrau rhifedd ar lefel debyg ym meysydd eraill y cwricwlwm.

O oedran cynnar, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau digidol mewn ystod o gyd-destunau creadigol i gefnogi eu dysgu ehangach. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn hyderus i ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd ac ymateb i'w dysgu, er enghraifft wrth ddysgu am wahanol ffynonellau goleuni. Maent yn defnyddio codio syml yn dda i raglennu tegan electronig i ddilyn llwybr rhagnodedig. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau digidol yn dda i gefnogi ymchwil annibynnol ac ysgrifennu, golygu, ailddrafftio a chyflwyno'u canfyddiadau, er enghraifft am y fforest law. Maent yn gwneud defnydd addas o gronfeydd data, er enghraifft i gofnodi eu hymchwiliad i storio pŵer adnewyddadwy. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod eang o gymwysiadau a rhaglenni yn hyderus, er enghraifft wrth greu ffilm fer yn Gymraeg am fywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae disgyblion yn datblygu medrau creadigol ac artistig cryf. Mae llawer o ddisgyblion iau yn dangos medrau echddygol manwl, gan ddefnyddio siswrn, glud a

brwshys paent yn hyderus wrth greu mwgwd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n ddychmygus gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau, er enghraifft wrth greu eu blociau argraffu eu hunain gan ddefnyddio cardfwrdd a gwlân i efelychu ffabrigau Cymreig traddodiadol. Maent yn datblygu eu medrau mewn amrywiaeth o gyd-destunau, er enghraifft wrth weithio gydag arlunydd lleol i greu patrymau troellog dychmygus ar lan y môr gan ddefnyddio deunyddiau naturiol. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau creadigol yn dda, er enghraifft i gynrychioli gwahanol dirluniau yn arddull arlunydd enwog o Gymru. Maent yn datblygu medrau effeithiol wrth ddatrys problemau, dylunio a chreu trwy gymryd rhan mewn cystadleuaeth genedlaethol i ddylunio car. Maent yn dangos lefelau uchel o berseinedd gan greu tôn a chywair effeithiol wrth weithio gydag aelodau o Opera Cenedlaethol Cymru. Maent yn dangos hyder cynyddol wrth berfformio o flaen pobl eraill.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn hyderus yn amgylchedd yr ysgol. Maent yn hapus ac yn falch o'u hysgol. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eithriadol o dda. Maent yn ffurfio perthnasoedd cryf ag oedolion a gyda'i gilydd. Maent yn gwrtais a moesgar â'i gilydd a gydag ymwelwyr. Dywedant eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd rhag problemau bwlio. Maent yn teimlo'u bod yn cael cymorth da gan staff, yn gwybod ble i droi os bydd angen cymorth arnynt, ac yn hyderus y bydd staff yn gwrando ac yn delio'n briodol ag unrhyw bryderon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. O oedran cynnar, mae disgyblion yn ymdawelu'n gyflym fel rhan o drefn y bore i ddewis gweithgareddau dysgu a chwarae mewn gwahanol ardaloedd o'r ddarpariaeth. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymgysylltu'n bwrpasol â'u tasgau, yn canolbwyntio'n dda, yn osgoi pethau sy'n tynnu sylw, ac yn cwblhau eu tasgau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n dda ac yn dangos parch a gofal am syniadau disgyblion eraill wrth weithio mewn parau a grwpiau. Maent yn gwrando'n ofalus ar yr hyn mae eu ffrindiau a'u hathrawon yn ei ddweud ac yn ymateb i'w syniadau yn ystyriol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyd-chwarae, yn cymryd eu tro ac yn cynorthwyo'i gilydd yn dda, wrth chwarae gemau a chymdeithasu yn ystod amseroedd egwyl.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn cynllunio'u testunau tymhorol. O ganlyniad i hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb ac ymgysylltiad yn eu dysgu. O roi'r cyfle iddynt, mae llawer ohonynt yn cynllunio ac yn cwblhau tasgau gyda chymorth cyfyngedig. Mae llawer ohonynt yn dangos gallu cynyddol i gyd-gynllunio a mynegi barn am beth maent yn ei ddysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar gyfarwyddyd athro ac nid ydynt yn gwneud digon o benderfyniadau am sut maent yn trefnu a chyflwyno'u gwaith. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion feddwl drostynt eu hunain.

Caiff disgyblion eu hannog i fyfyrio ar eu dysgu o oedran cynnar. Mae llawer ohonynt yn ymateb yn dda i adborth gan oedolion i wella'u gwaith a datblygu eu medrau ymhellach. Mae disgyblion hŷn yn gwneud defnydd cynyddol o hunanasesu ac asesu cyfoedion, ac yn awyddus i wneud newidiadau i'w gwaith. Mae hyn yn gwella'u

hunanhyder ac yn cefnogi eu cynnydd wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd da o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain trwy ystod o rolau a phwyllgorau llais y disgybl. Er enghraifft, mae'r Criw Cymraeg gweithgar yn hyrwyddo ystod o weithgareddau yn llwyddiannus, gan gynnwys y Pafiliwn Parablu i ymestyn medrau Cymraeg llafar disgyblion. Mae disgyblion wedi bod yn allweddol hefyd yn annog defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i sicrhau bod yr ysgol yn gwbl gynhwysol. Wrth ymgymryd â'r rolau hyn, mae llawer o ddisgyblion yn ymddangos yn hyderus a gallant esbonio ble mae eu gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i fywyd ysgol. Mae hyn yn helpu datblygu eu hyder, eu gwydnwch a'u hempathi at bobl eraill, ac yn taflu goleuni gwerthfawr iddynt ar sut y caiff penderfyniadau eu gwneud.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'r angen am reolau a chysyniad tegwch, parch a goddefgarwch, ac maent yn dechrau datblygu dealltwriaeth addas o amrywiaeth ddiwylliannol yn y Gymru fodern. Maent yn dangos dealltwriaeth briodol o rai o'r materion moesegol sy'n wynebu'r byd, fel yr angen i warchod yr amgylchedd. Maent yn falch o'u hymdrechion i gefnogi elusennau cenedlaethol a lleol. Mae'r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill yn eu cymuned a'r byd ehangach ac yn eu helpu i ddatblygu fel dinasyddion moesegol a chyfrifol.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o sut i aros yn ddiogel pan fyddant ar-lein. Er enghraifft, maent yn gwybod i beidio â rhannu eu cyfrineiriau. Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gofalu am eu lles eu hunain. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod am bwysigrwydd cadw'n iach ac yn heini. Maent yn siarad yn wybodus am ddewisiadau bwyd iach ar gyfer byrbrydau a'r angen i yfed dŵr yn rheolaidd. Maent yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd, ac yn cynnwys eu hunain yn weithredol mewn ystod o weithgareddau yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n briodol â'r holl randdeiliaid i greu gweledigaeth ar gyfer ei chwricwlwm lle mae 'disgyblion yn dysgu disgleirio gyda'i gilydd'. Mae hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion y Cwricwlwm newydd i Gymru. Trwy'r gwaith hwn, mae athrawon yn datblygu cwricwlwm eang gyda ffocws cryf ar roi profiadau priodol i ddisgyblion am y byd y maent yn byw ynddo. Mae'r pedwar diben sydd wrth wraidd gwaith cwricwlwm yr ysgol wedi'u hymgorffori mewn datblygu profiadau dysgu hanfodol 'Taith Tudno' ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Mae hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i brofi gweithgareddau cyfoethogi allweddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn gwneud dewisiadau am y testun y maent yn dymuno'i astudio tra bod disgyblion hŷn yn awgrymu cwestiynau y maent eisiau ymchwilio iddynt yn gysylltiedig â'u testunau dosbarth. Mae hyn yn sicrhau bod athrawon yn darparu ystod briodol o gyfleoedd dysgu dilys sy'n ymestyn gwybodaeth disgyblion ac yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu ystod o fedrau.

Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn datblygu medrau dylunio a chreu effeithiol trwy eu gwaith ar geir Fformiwla Un.

Mae athrawon yn ehangu cyfleoedd dysgu yn dda trwy ddefnyddio ymweliadau ag ardaloedd lleol, ymwelwyr i'r ysgol, a chydweithio ag asiantaethau allanol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn elwa ar astudio'r traeth lleol, tra bod disgyblion hŷn yn datblygu medrau perfformio cryf trwy eu gwaith gydag Opera Cenedlaethol Cymru. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gyrfaoedd a dysgu am fyd gwaith yn llwyddiannus mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol a rhieni. Mae sesiynau 'Gwener Gwaith' rheolaidd yn galluogi disgyblion i ddysgu am eu rolau a'u medrau ac yn cefnogi datblygu dyheadau disgyblion ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn galluogi'r ysgol i fynd i'r afael â phroblemau yn effeithiol hefyd, fel stereoteipio o ran rhywedd.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol yn ystod gwersi bob dydd. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r cynllunio ar gyfer datblygiad systematig medrau disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw medrau disgyblion bob amser yn datblygu'n ddigon cyson dros gyfnod.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn nodwedd nodedig o'r ysgol. Mae athrawon a staff cymorth yn darparu modelau rôl cryf, ac mae gwersi'n adeiladu'n gyson gan ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn effeithiol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae cwricwlwm yr ysgol hefyd yn hyrwyddo treftadaeth a diwylliant Cymru yn llwyddiannus, er enghraifft trwy astudio arlunwyr enwog o Gymru. Mae hyn yn creu cariad at Gymru, ymdeimlad cryf o berthyn a dealltwriaeth briodol o sut beth yw byw yn y Gymru fodern.

Mae pob un o'r staff yn darparu lefelau uchel o ofal bugeiliol ar gyfer eu disgyblion. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gadarnhaol ac yn sensitif, gan sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn cefnogi eu datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol trwy raglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol. Mae hyn yn adeiladu medrau'n bwrpasol wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol. Mae athrawon yn hyrwyddo lles, tegwch a chyfeillgarwch cadarnhaol yn effeithiol. Er enghraifft, trwy waith i ddathlu amrywiaeth, mae disgyblion yn dechrau dysgu am bwysigrwydd dathlu gwahaniaethau pawb. Megis dechrau datblygu y mae gwaith yr ysgol ar agwedd cydberthynas y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu chwilfrydedd naturiol trwy weithgareddau chwarae'n rhydd bob dydd. Er enghraifft, pan fydd disgyblion yn archwilio effaith arllwys dŵr i lawr lefelau amrywiol o beipen ddraenio, maent yn sylwi pa mor bell mae'r dŵr yn teithio. Ar draws yr ysgol, mae llawer o athrawon yn darparu ystod addas o weithgareddau i atgyfnerthu dealltwriaeth o gysyniadau a medrau sylfaenol ac yn annog annibyniaeth disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau hyn bob amser yn darparu digon o her nac yn ymestyn dysgu'r disgyblion yn ddigon da. Mae addysgu disgyblion ag ADY, gan gynnwys y disgyblion hynny yn Nosbarth Enfys yr ysgol, yn hynod effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi'n effeithiol i wirio dealltwriaeth disgyblion a symud y dysgu ymlaen. Maent yn dechrau darparu cyfleoedd priodol i

ddisgyblion werthuso'u dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn barod i rannu a thrafod meini prawf llwyddiant ac yn cynorthwyo disgyblion yn ofalus i ystyried sut gallant wella'u gwaith. Fodd bynnag, mae ansawdd adborth athrawon ar draws yr ysgol yn amrywio ac nid yw bob amser yn cael effaith ddigonol ar wella ansawdd gwaith disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae arweinwyr a staff yn gweithio'n ddiwyd i ddarparu lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer yr holl ddisgyblion yn Ysgol Tudno. Maent yn darparu amgylchedd hapus, cynhwysol ac anogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn saff ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth. Mae'r ystod eang o strategaethau ac arweiniad sydd ar gael i gefnogi lles cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn hynod effeithiol. Mae arweinwyr a staff yn treulio amser i ddod i adnabod y disgyblion er mwyn cynnig y ddarpariaeth orau posibl i ddiwallu eu hanghenion. Mae hyn yn cynnwys sesiynau gwirio a chymorth rheolaidd gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, er enghraifft i fentora disgyblion sydd efallai â phroblemau emosiynol neu orbryder. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les ac iechyd meddwl disgyblion, yn ogystal â'u paratoi ar gyfer dysgu.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Maent yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o werthfawrogi gwahaniaethau a dangos pryder a gofal am eu cyfoedion yn llwyddiannus. Mae'r gweithredoedd addoli dyddiol, lle caiff disgyblion amser i fyfyrio, yn cefnogi eu datblygiad ysbrydol a moesol yn dda. Caiff gwerthoedd yr ysgol ar hyrwyddo caredigrwydd, moesau, gwrando, parch a dyfalbarhad eu deall yn dda iawn gan ddisgyblion ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar eu hagwedd a'u hymddygiad. Mae hyn, ynghyd â rhaglen gwrthfwlio strwythuredig a ffocws clir ar hawliau plant, yn helpu disgyblion i ddeall pwysigrwydd parch ar y ddwy ochr. O ganlyniad, mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda.

Mae datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant a'u treftadaeth Gymreig yn nodwedd nodedig yn narpariaeth yr ysgol. Mae staff yn darparu profiadau dysgu trochi, dilys a chyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg a'u gwybodaeth am hanes a thraddodiadau Cymru. Mae hyn yn cynnwys dysgu am waith arlunwyr ac awduron enwog o Gymru. Yn ychwanegol, mae athrawon yn darparu profiadau bywyd go iawn ar gyfer disgyblion sy'n eu helpu i ddeall pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn eu cymuned, er enghraifft trwy ymweld â busnesau lleol i'w hannog i ddarparu arwyddion a gwasanaethau dwyieithog.

Mae'r trefniadau ar gyfer nodi ac ymateb i anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion yn drylwyr. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) yn helpu sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag ADY yn effeithiol ac yn diwallu eu hanghenion yn dda. Mae pob un o'r staff yn cyfrannu'n effeithiol at ddarparu amgylchedd dysgu cynhwysol. Mae hyn yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai o'r Dosbarth Enfys, yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gefnogi eu lles a gwneud cynnydd yn eu dysgu. Gyda'i gilydd, maent yn rhannu arbenigedd i gefnogi ei gilydd a myfyrio'n barhaus ar y cynnydd a wna disgyblion. Mae systemau clir ar waith i nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae athrawon yn cynllunio darpariaeth yn effeithiol i'w cynorthwyo i wneud cynnydd da. Mae'r CydADY yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i ddarparu cymorth

ychwanegol ar gyfer disgyblion ag ADY, er enghraifft i gynorthwyo disgyblion ag anawsterau lleferydd ac iaith. Mae athrawon yn creu proffiliau un dudalen defnyddiol ar gyfer pob disgybl ag ADY, yn ogystal â chynlluniau datblygu unigol. Mae'r rhain yn helpu sicrhau bod staff yn deall anghenion unigol disgyblion ac yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau cymorth cadarn ar gyfer disgyblion. Mae staff yn cynnwys rhieni yn llwyddiannus mewn creu cynlluniau dysgu unigol wedi'u targedu'n dda ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol. Un o gryfderau penodol y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yw ymroddiad a medrau cynorthwywyr addysgu sy'n darparu rhaglen helaeth o ymyriadau pwrpasol sy'n cefnogi lles a medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cryf dros gyfnod.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o grwpiau llais y disgybl sy'n sicrhau bod disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at agweddau pwysig ar fywyd yr ysgol. Mae athrawon yn sicrhau bod holl ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain. Er enghraifft, ffurfiodd disgyblion grŵp dinasyddion egwyddorol a gwybodus sy'n creu hysbysiadau 'Arbed Trydan' o gwmpas yr ysgol. Maent yn annog ailddefnyddio gwisgoedd ysgol, ac mae teuluoedd yn cyfrannu detholiad ohonynt. Maent wedi lleoli man casglu yn yr ysgol i gefnogi prosiect dillad lleol. Mae'r Criw Cymraeg yn mynd ati i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae gan bron bob un o'r grwpiau gynlluniau a thargedau pwrpasol sy'n cael effaith gadarnhaol mewn llawer o feysydd. Mae hyn yn helpu meithrin ymdeimlad o berthyn a chynhwysiant.

Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gadarn, ac mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cyfrannu at ddiogelwch a lles disgyblion. Ceir darpariaeth effeithiol i gynorthwyo disgyblion i'w cadw eu hunain yn ddiogel wrth weithio ar-lein. Mae gan yr ysgol strategaethau cadarn ar waith i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd ymhlith disgyblion, gan gynnwys monitro dyddiol, cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni a gwaith dilynol wedi'i gefnogi gan yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb yn parhau i wella.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, yn seiliedig ar ddarparu amgylchedd dysgu anogol, cynhwysol a phwrpasol lle caiff disgyblion y cyfleoedd gorau i lwyddo. Datblygu medrau Cymraeg disgyblion a'u dealltwriaeth o dreftadaeth a diwylliant Cymru sydd wrth wraidd gwaith yr ysgol. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth dosturiol ac ystyriol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r disgyblion, y staff a'u teuluoedd. Ar y cyd â chymorth staff, aelodau o'r corff llywodraethol a'r tîm arweinyddiaeth, mae'r pennaeth yn hyrwyddo diwylliant o waith tîm cryf ar draws yr ysgol. Maent wedi creu diwylliant diogelu cadarnhaol, lle mae disgyblion a staff yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae staff yn adnabod eu cymuned yn dda ac yn gweithio gydag ymroddiad i sicrhau bod pob un o'r teuluoedd, gan gynnwys y rhai sydd dan anfantais, yn cael cymorth da.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus ac yn cefnogi gwaith yr ysgol yn dda. Mae'r berthynas agored a gonest rhwng arweinwyr ac aelodau o'r corff llywodraethol yn sicrhau eu bod yn ymwybodol iawn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae aelodau'n defnyddio'u hystod eang o fedrau ac arbenigedd i ddarparu cymorth, arweiniad a her werthfawr i arweinwyr a staff yr ysgol, er enghraifft trwy wirfoddoli i

gefnogi medrau darllen disgyblion, yn ogystal â darparu cyngor a her ar ddarpariaeth ADY. Maent yn gwerthfawrogi gwaith pob aelod o staff ac yn hynod falch o natur gynhwysol yr ysgol a'i rôl mewn cefnogi lles disgyblion. Un o nodweddion nodedig gwaith y corff llywodraethol yw eu cyfraniad at y grwpiau llais y disgybl, sy'n adlewyrchu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru. Mae aelodau'n cymryd cyfrifoldeb am gydlynu'r grwpiau hyn ac yn cyfarfod â disgyblion yn rheolaidd i drafod eu gwaith ym mhob un o'r meysydd. Mae hyn yn eu helpu i ennill dealltwriaeth well o waith yr ysgol a sut gallant gefnogi dysgu a lles disgyblion. Mae'r corff llywodraethol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr, staff a llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae blaenoriaethau gwella'r ysgol yn cysylltu'n briodol ag anghenion yr ysgol ac yn cynnwys y cyd-destun lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, maent yn cydnabod bod angen sicrhau bod dilyniant dysgu yn ganolog i'w cwricwlwm ac yn ymgysylltu â dysgwyr, gan ddiwallu eu hanghenion. Mae cynnwys maes blaenoriaeth gyffredin ar draws pob ysgol o fewn y clwstwr yn darparu cyfleoedd defnyddiol i staff weithio gyda chydweithwyr mewn ysgolion lleol a rhannu arfer dda. Mae arweinwyr ac athrawon yn defnyddio ystod briodol o offer monitro a gwerthuso i helpu nodi beth maent yn ei wneud yn dda a beth mae angen ei wella. Yn yr enghreifftiau gorau, mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn adolygu effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion yn rheolaidd, er enghraifft wrth fonitro effaith y cymorth helaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn nodi effaith y ddarpariaeth ar ddysgu disgyblion yn ddigon da ar gyfer yr holl feysydd gwella.

Mae arweinwyr yn annog staff i ymgymryd â chyfleoedd hunanwella a datblygiad proffesiynol i wella'u gwybodaeth a'u medrau. Yn gyffredinol, maent yn cysylltu anghenion proffesiynol staff â blaenoriaethau'r ysgol yn briodol, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd i staff ymestyn eu gallu i gynorthwyo disgyblion â'u hanghenion emosiynol. Yn ychwanegol, mae arweinwyr yn cynorthwyo pob aelod o staff i ymgymryd â datblygiad proffesiynol. Er enghraifft, mae'r staff arlwyo yn gwella'u medrau Cymraeg i annog disgyblion i ddefnyddio'u medrau Cymraeg yn ystod egwylion cinio. Mae arweinwyr yn defnyddio gweithdrefnau rheoli perfformiad yn dda i helpu cynorthwyo pob un o'r staff i nodi meysydd addas i'w datblygu. Mae datblygu arweiniad i werthuso perfformiad cynorthwywyr addysgu yn nodwedd nodedig o'r gwaith hwn. O ganlyniad, mae staff yn cyfrannu'n dda at y gwelliant parhaus ar draws yr ysgol yn ogystal â datblygu eu medrau a'u gwybodaeth bersonol.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn rheoli cyllideb eu hysgol yn dda ac mae cynllunio ariannol gofalus yn sicrhau bod gan yr ysgol gyllid digonol i gyflwyno cynlluniau yn y flwyddyn i ddod. Mae'r ysgol yn monitro ac yn dyrannu'r grant datblygu disgyblion a chyllid ychwanegol arall yn ofalus, gan sicrhau ystod o raglenni cymorth gwerthfawr i helpu datblygiad emosiynol a chymdeithasol disgyblion bregus.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/08/2023